Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn

rhif elusen 516040

cyfeiriad cofrestredig d/o Bron Cafnant, Llanfair Caereinion, SY21 0BP

Adroddiad a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr ~ 01/09/07 – 31/08/08

~~~~~~~~~~~~~~~~

1. Cyflwyniad

Etholwyd yr Ymddiriedolwyr a ganlyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn, a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2008 :

Jane Howells; Eileen Roberts; Charlotte Durie; Jennifer Wilcox; Geraint Owen; Jacqueline Langston; Hilary Clark. Yr Ymddiriedolwyr yw Pwyllgor Rheoli'r Theatr Ieuenctid.

Etholwyd Sam Hewitt ac Ani Bardsley fel cynrychiolwyr aelodau i weithredu ar y Pwyllgor Rheoli ynghyd â'r Ymddiriedolwyr.

Mewn cyfarfod dilynol, penodwyd y swyddogion a ganlyn :

Cadeirydd: Jane Howells
Trysorydd: Eileen Roberts
Ysgrifennydd: Charlotte Durie

Mae Amcanion y Gymdeithas (Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn) fel a ganlyn :

- meithrin a hybu addysg pobl ifanc, yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn gwerthfawrogi ac ymarfer Drama yn ei holl agweddau, a chydweithredu ag Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysgol a Chymdeithasau Diwylliannol sy'n ymwneud ag ymarfer, cyflwyno ac astudio Drama i hybu gwell gwybodaeth a diddordeb ehangach yn y celfyddydau perfformio, ymhlith pethau eraill.

Wrth geisio cyflawni'r Amcanion hyn, yn ystod y deuddeg mis y mae'r adroddiad hwn yn eu cwmpasu, mae Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn wedi darparu rhaglen ac wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau y manylir arnynt mewn paragraffau yn nes ymlaen.

3. Penodi Ymddiriedolwyr

Mae Pwyllgor Rheoli'r Theatr Ieuenctid yn cynnwys ei Hymddiriedolwyr (a benodir pob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol), aelodau cyfetholedig â sgiliau artistig penodol a sgiliau eraill, a chynrychiolwyr y mae'r aelodau ifanc yn eu hethol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, bob tri mis, a cheir cyswllt parhaus rhwng y Cyfarwyddwr Artistig a'r swyddogion/aelodau unigol o'r pwyllgor rheoli y tu allan i'r cyfarfodydd hyn.

Rhoddir gwybod i Ymddiriedolwyr newydd am eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr, a chyfeirir at y

ddogfen a'r polisïau llywodraethol wrth wneud pob penderfyniad.

4. Polisïau ac Arfer

Mae'r Theatr Ieuenctid yn gweithredu'n unol â'r polisïau a ganlyn :

Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc;
Anabledd;
Cyfle Cyfartal;
Canllawiau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Fel rhan o gyfnod ymsefydlu a/neu hyfforddiant unrhyw unigolion sy'n gweithio gyda'r Theatr Ieuenctid yn rheolaidd, manylir ar ddarpariaethau'r polisïau hyn, ac mae cydymffurfio â nhw'n amod swydd.

Er nad oes gan y Theatr Ieuenctid bolisi ysgrifenedig ar ddefnyddio'r Gymraeg, mae'n gwneud pob ymdrech i weithio'n ddwyieithog pan fo'n briodol, a chyhoeddir ei hadroddiadau blynyddol yn y ddwy iaith.

Wrth i blant ymuno â'r Theatr Ieuenctid, rhoddir llythyr i'w rhieni'n manylu ar arferion y theatr, a sicrheir eu llofnod yn rhoi caniatâd cyn i'r plentyn gychwyn gweithio mewn unrhyw grŵp. Gofynnir am ganiatâd hefyd i ddefnyddio llun o'r plentyn mewn unrhyw gyhoeddusrwydd, ac i gadw manylion cyswllt mewn cronfa ddata. Nodir gwybodaeth feddygol hanfodol, a chyfeirir ati pan fo angen yn unig. Mae gan y Theatr Ieuenctid yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd gweithwyr llawn.

Mae pawb sy'n gweithio gydag aelodau ifanc yn rheolaidd yn destun gwiriadau rheolaidd y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Nid oes gofyn i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad ag aelodau'n fwy achlysurol ac yn llai uniongyrchol (fel dyletswyddau blaen tŷ) fod yn destun gwiriadau o'r fath, ond nid ydynt yn dod i gysylltiad â'r aelodau heb fod rhywun sydd wedi'i wirio'n bresennol ac yn goruchwylio.

Mae'r Theatr Ieuenctid wedi'i chofrestru fel grŵp ieuenctid gwirfoddol â Chyngor Sir Powys, ac mae'n bodloni meini prawf a osodir gan yr awdurdod lleol.

5. Cyllid a Chodi Arian

Mae'r Theatr Ieuenctid yn cael cymorth ariannol oddi wrth Gyngor Sir Powys a Chyngor Tref y Trallwng, a rhestrir y grantiau hyn yn y cyfrifon diwedd blwyddyn sy'n rhan o'r Adroddiad hwn. Mae ffioedd aelodaeth a phrosiectau, ac elw'r swyddfa docynnau'n cyfrannu at yr incwm hefyd. Mae pob artist sy'n gweithio i'r Theatr Ieuenctid yn cael ei dalu ar gyfraddau proffesiynol y cytunir arnynt. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith gwirfoddol aelodau'r pwyllgor rheoli ac eraill yn hanfodol er hyfywdra'r sefydliad. Cydnabyddir a gwerthfawrogir y ffaith bod Ysgol Uwchradd y Trallwng yn darparu lleoedd i berfformio a safleoedd ar gyfer gweithdai yn rhad ac am ddim.

Mae gan y Theatr Ieuenctid bolisi cronfa wrth gefn o £2000. Cytunir ar gyllideb flynyddol yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor bob blwyddyn, a chyflwynir adroddiadau a diweddariadau ariannol ym mhob cyfarfod wedi hynny.

Mae archwiliwr annibynnol yn archwilio'r cyfrifon.

6. Trefniadaeth ac Aelodaeth

Cynhaliwyd cyfanswm o oddeutu 30 gweithdy ar gyfer pob grŵp yn ystod y flwyddyn, gydag ymarferion ychwanegol adeg cynyrchiadau, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau.

Mae nifer yr aelodau wedi parhau'n uchel trwy gydol y flwyddyn, gyda chyfanswm o tua 60 o bobl ifanc yn y tri grŵp yn mynychu pob wythnos ar gyfartaledd. Mae'r grŵp iau yn cynnwys disgyblion o flwyddyn ysgol 5 a 6, y grŵp canolradd yn cynnwys disgyblion o flwyddyn 7 ac 8, a'r grŵp hŷn yn cynnwys disgyblion o flwyddyn 9/10 ac uwch. Oherwydd pwysau'r niferoedd yn y grŵp hŷn, nid oedd yn bosibl derbyn unrhyw ddisgyblion o flwyddyn 9 iddo tan dymor yr haf pan wnaeth rhai aelodau hŷn adael er mwyn canolbwyntio ar eu harholiadau. Fodd bynnag, bu rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer y bobl hynny, ac eraill ar y rhestr aros, gyda "Drama mewn Penwythnos" (wedi'i ddisgrifio isod).

O ystyried y gofynion ariannol ar lawer o'r teuluoedd y mae eu plant yn mynychu pob wythnos, a chyda chost gynyddol teithio, daliwyd at y ffi aelodaeth o £25 ar gyfer mynychu tymor o weithdai, gan gynnwys ymarferion ychwanegol adeg cynyrchiadau. Gostyngir y ffi hwn mewn achosion o galedi.

7. Staffio

Yn ffodus, mae'r Theatr Ieuenctid wedi dal ei gafael ar wasanaethau Penny Jones, Sarah Owen a Ginny Graham, sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn rheolaidd fel cyfarwyddwyr ac arweinwyr gweithdai. Ymhlith yr artistiaid eraill sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn mae'r cerddor Iris Gordijn; y bardd Chris Kinsey; a'r hwyluswyr ac artistiaid gweledol Ingrid Maugham, Karen Gomm ac Alwyn Wesson.

8. Cynyrchiadau, Perfformiadau a digwyddiadau eraill

Roedd pumed flwyddyn ar hugain gweithredu'r Theatr Ieuenctid yn eithriadol o llawn, gyda llond gwlad o weithgareddau ar y rhaglen. Cefnogwyd pob un o'r rhain i'r eithaf gan yr aelodau yn ogystal â'r cyhoedd, sy'n cefnogi trwy fod yn y gynulleidfa. Gosodir y rhain mewn trefn gronolegol.

Herod and the Slaughter of the Innocents a *The Llandinam Mummers' Play.*
Roedd y rhain yn ganolog i Ddathliadau Nos Ystwyll Llandinam, a gynhaliwyd yn eglwys a neuadd bentref Llandinam. Gwnaeth TAsC (Traddodiadau a Syniadau Celf) wahodd y theatr ieuenctid i lwyfannu'r perfformiadau hyn. Gwnaeth grŵp bach o aelodau hŷn, yn gweithio gyda'u cyfarwyddwr, Ginny Graham, gynnal cyfnod o ymarfer dwys, byr i gyflwyno drama *Herod* allan o *Coventry Cycle of Mystery Plays*, a drama mudchwarae, gan weithio gyda cherddorion lleol mewn noson o ddathlu traddodiadol.

A Door Opens a *Cresswell House.*
Cyflwynodd y grŵp iau a'r grŵp canolradd ddwy ddrama dros ddwy noson yn Theatr Clera, yn seiliedig ar waith wedi'i ddyfeisio. Dyma oedd perfformiad cyhoeddus cyntaf sawl un o'r perfformwyr ifanc hyn ar y lefel hon, a darparodd y ddau grŵp waith caboledig, disgybledig a difyr i gynulleidfaoedd mawr. Roedd *A Door Opens* (a gyfarwyddwyd gan Penny Jones) yn seiliedig ar thema uchelgeisiau a chystadleugarwch ymhlith plant sy'n parhau wrth iddynt ddod yn oedolion, ac roedd *Cresswell House* (a gyfarwyddwyd gan Sarah Owen) yn cyflwyno diwrnod ym mywyd trigolion bloc o fflatiau. Defnyddiwyd masgiau Trestl â sgìl ac argyhoeddiad da yn y cynhyrchiad hwn.

Drama mewn Penwythnos.
Er mwyn darparu rhywfaint o weithgaredd ar gyfer pobl ifanc ym mlwyddyn 9 a oedd yn aros am le yn y grŵp hŷn, arweiniodd Sarah Owen brosiect creu drama yn ystod un penwythnos ac, yn sgil hyn, cyflwynwyd y perfformiad i gynulleidfa oedd wedi'i gwahodd. Mwynhaodd y gynulleidfa ddrama dditectif ragorol ar ffurf parodi, ac fe'i cyflwynwyd â steil a sgìl ragorol gan y perfformwyr.

Aduniad a Dathliad.
Cynhaliwyd aduniad ym mis Ebrill i ddathlu pen-blwydd y Theatr Ieuenctid yn 25 oed. Daeth cyn aelodau o bob cwr o'r DU a thu hwnt, gydag un (actor llwyddiannus bellach) yn cyrraedd o Efrog Newydd. Roedd hwn yn achlysur llawen, gan gyfuno hiraeth â llongyfarchiadau, i'r Theatr Ieuenctid ac i bawb a fu'n rhan ohoni (ac sy'n dal i fod), gyda sawl un ohonynt bellach yn dilyn gyrfa wedi'i hen sefydlu yn y celfyddydau perfformio. Ymysg y dwsinau a oedd yn bresennol, roedd cynrychiolwyr cast pob prif gynhyrchiad y mae'r Theatr Ieuenctid wedi'i lwyfannu ers ei sefydlu ym 1983. Fel rhan o'r digwyddiad, cyflwynodd y grŵp hŷn y ddrama *Celebration*, a oedd yn cyfuno ac yn adlewyrchu sawl cynhyrchiad y cwmni o'r gorffennol, ynghyd â gemau ac ymarferion gweithdy, gan gynnig rhywbeth i'w cynulleidfa o'u dyddiau a fu.

Encounters
Roedd y cynhyrchiad hwn, a oedd yn cynnwys y grŵp hŷn, yn gydweithrediad unigryw rhwng y bardd Chris Kinsey, y grŵp llais digyfeiliant Vox Orbis (a arweiniwyd gan Iris Gordijn), cyfarwyddwr y theatr ieuenctid Ginny Graham, ac Oriel Davies Gallery, y Drenewydd. Gan gyfuno barddoniaeth, cerddoriaeth a deialog, wedi'i osod ar ffurf arddangosfa o waith William Roberts, roedd y gwaith yn arbrofol ac yn ddiddorol, a gwnaeth cynulleidfaoedd ei fwynhau ar ddwy noson yn y galeri, ac yna yn Theatr Clera am drydydd noson.

Animal Farm
Prosiect yr haf eleni oedd dramodiad o ddychan gwleidyddol George Orwell, o ganlyniad i gais arbennig rhai aelodau. Bu cast o naw o'r aelodau hynaf yn gweithio'n ddwys am wyth diwrnod dros wyliau'r haf ar gyflwyniad cynnil a llawn her o ddrama anodd, ac aed â'r perfformiad i Hirnant a Llandinam, cyn dau berfformiad i gloi yn y Trallwng. Roedd cynulleidfa Llandinam yn cynnwys grŵp mawr o fyfyrwyr y celfyddydau perfformio o Ysgol Uwchradd Llanidloes, a oedd yno fel rhan o'u prosiectau arholiad.

Diwrnodau'r Celfyddydau a Diwrnodau Drama
Trefnodd y Theatr Ieuenctid Ddiwrnod y Celfyddydau a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf yn Theatr Clera ar y cyd â Play Montgomeryshire, i blant yn eu harddegau ag anghenion addysgol, corfforol ac emosiynol arbennig. Roedd hyn yn cynnwys pedwar artist (dau berfformiwr, dau "yn creu"), a sawl gwirfoddolwr, rhai ohonynt yn aelodau o'r theatr ieuenctid. Gan weithio ar thema "Y Môr", daeth y diwrnod i ben â pherfformiad disglair, yn defnyddio'r celfi a'r gwisgoedd mewn dramodiad a grëwyd yn ystod y dydd. Wedi hynny, darparodd y theatr ieuenctid weithgareddau tebyg ar bedwar Diwrnod Drama integredig yn y Drenewydd.

9. Cydweithio a Rhwydweithio

Mae enwau rhai o'r cyrff a'r sefydliadau sy'n cydweithio eisoes wedi'u nodi yng nghorff yr adroddiad hwn, ond maent i'w gweld eto yma. Mae'r Theatr Ieuenctid wedi mwynhau perthnasoedd gweithio da â TAsC, Play Montgomeryshire ac Oriel Davies Gallery yn ystod y flwyddyn. Mae ei pherthynas barhaus ag Ysgol Uwchradd y Trallwng yn gweithredu ar sail anffurfiol yn bennaf, gyda'r naill garfan yn cefnogi'r

llall mewn prosiectau artistig: roedd Penny Jones yn gyfrifol am y gwisgoedd ar gyfer prif gynhyrchiad yr ysgol o *Oliver*, a defnyddiwyd nifer o gelfi a gwisgoedd y Theatr Ieuenctid yn y cynhyrchiad. Mae defnydd y Theatr Ieuenctid o safle'r ysgol wedi'i gydnabod eisoes. Yn y gymuned ehangach, mae'r Theatr Ieuenctid wedi benthyca cyfarpar goleuo i ysgolion cynradd a sefydliadau eraill at ddibenion perfformio. Mae Ginny Graham yn Gadeirydd Fforwm Celf Powys, sef sefydliad sy'n gweithredu ledled y sir mewn cyswllt agos â swyddogion celfyddydau Cyngor Sir Powys. Mae pob un o ddigwyddiadau'r Theatr Ieuenctid yn cael sylw da yn y wasg.

10. Cyhoeddusrwydd a Chyhoeddiadau

I ddathlu ei phen-blwydd yn 25 oed, cyhoeddodd y Theatr Ieuenctid lyfryn yn cynnwys llawer o luniau o gynyrchiadau a sylwadau gan aelodau presennol a chyn aelodau, yn manylu ar ei hanes, a dosbarthwyd hwn yn eang. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd wefan hefyd (www.mytheatre.org.uk) sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd â lluniau, newyddion a gwybodaeth.

11. Casgliad

I gloi'r adroddiad hwn, rhaid cyfeirio at lwyddiant rhai o'r cyn aelodau, a chydnabod gwaith cefnogwyr a diolch iddynt. Daeth newyddion i'r amlwg yn ystod yr aduniad am yrfaoedd cynifer o gyn aelodau yn y celfyddydau gweledol, yn ogystal â meysydd proffesiynol perthynol, fel nad oes modd enwi pob un ohonynt yma. Fodd bynnag, mae'r pobl a ganlyn yn eu cynrychioli i gyd: Idris Jones, sydd wedi bod yn gweithio'n eang ym myd y theatr a theledu trwy gyfrwng y Gymraeg ers sawl blwyddyn; Maggie Williams, sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Actors' Studio yn Efrog Newydd; Nikki Jaye Witt, sy'n datblygu gyrfa lwyddiannus iawn fel actores a chyfarwyddwr ymladd ar lwyfan yn Awstralia; Lu Corfield yn Llundain, sydd wrthi'n sefydlu gyrfa gadarn ar y llwyfan a'r teledu. Ymysg y rhai sydd wedi'n gadael ni'n ddiweddar, ac yr oedd eu perfformiadau mewn rhai o gynyrchiadau eleni'n gofiadwy, mae Michael Gries, sy'n mynd i ddilyn cwrs cyfarwyddo ym Mhrifysgol Bryste, Jamie Panton, sy'n astudio ffilm yng Nghaerdydd, a Catrin Owen, sydd bellach yn Ysgol Actio Birmingham. Hoffem hefyd gofnodi ein diolch i ddau ymddiriedolwr sydd wedi bod yn gweithio i ni ers cryn amser ac sydd bellach wedi ymddiswyddo, sef Caroline Clegg a Lesley Cookson. Mae eu gwaith a'u cefnogaeth amhrisiadwy i'r Theatr Ieuenctid wedi cyfrannu'n fawr at ei llwyddiant.

Ar ddiwedd blwyddyn gofiadwy, mae'r Theatr Ieuenctid yn edrych ymlaen at ddyfodol llwyddiannus, i'r theatr ei hun, ac i'r bobl ifanc y mae'n eu gwasanaethu.

Jane Howells
Cadeirydd

THEATR IEUENCTID SIR DREFALDWYN

rhif elusen 516040

Income and Expenditure : 01/09/07 - 31/08/08

Income		
Opening balances :		
current a/c	4,261.77	
deposit a/c	13,055.71	
		17,317.48
interest on deposit a/c		376.64
Grants :		
Powys County Council	6,958.00	
Welshpool Town Council	600.00	
		7,558.00
Other income :		
Members' subscriptions	3,565.00	
Box Office	905.00	
Sales (badges)	47.00	
Internet donations (Everyclick)	25.72	
Sale (reunion refreshments)	112.00	
		4,654.72
		29,906.84

Expenditure				
Director's Administration Fees			4,162.00	
Artists' Fees			7,882.50	
				12,044.50
Production Costs				131.93
Other expenditure :				
Travel			629.10	
Translation			113.02	
General Administration/marketing			286.40	
Insurance			270.12	
Accounts Examination Fee			75.00	
ex gratia payment to WH School			200.00	
25th Reunion costs incl. booklet printing			665.89	
Purchase of badges			192.70	
Equipment PAT testing			127.61	
Transfers to Petty Cash			600.00	
				3,159.84
				15,336.27
Closing balances:				
Current account	6,018.62			
less cheques not presented		1,030.00		
		1,850.40		
			3,138.22	
Deposit account			11,432.35	
				14,570.57
				29,906.84